

Cofnodion **Cyfarfod Blynyddol Cyngor Dinas Bangor** a gynhaliwyd yn Neuadd y Penrhyn a thrwy fideo-gynadledda Teams, **nos Lun, 12fed Mai 2025** am 6.30 pm

YN BRESENNOL: Ei Deilyngdod y Maer, y Cynghorydd Gareth Parry a

Y Dirprwy Faer, y Cynghorydd Medwyn Hughes

Cynghorwyr: Cyng. Salamat Fada, Cyng. John Wynn Jones, Cyng. Elin Walker Jones, Cyng. Delyth Russell, Cyng. Gwynant Roberts, Cyng. Eirian Williams Roberts, Cyng. Mark Roberts, Cyng. Jackie Spence, Cyng. Lisa Toth a'r Cyng. John Wyn Williams.

Swyddogion: Martin Hanks (Cyfarwyddwr Dinesig), Carwyn Davies (Swyddog Gweinyddol), Sioned Jones (Cyfieithydd) ac 8 aelod o'r cyhoedd.

Am 6.30 pm, arweiniodd Ei Deilyngdod y Maer, yng nghwmni Cyfarwyddwr y Ddinas a Mr John Chamberlin (Cludwr y Byrillysg), y Cynghorwyr i Siambr y Cyngor.

Cyn dechrau'r cyfarfod yn ffurfiol, croesawyd pawb i'r seremoni gan y Maer oedd yn ymddeol. Dywedodd ei bod wedi bod yn anrhydedd gwasanaethu fel Maer y llynedd, a soniodd am rai o uchafbwyntiau ei dymor fel Maer. Roedd y rhain yn cynnwys cynrychioli ein dinas gyda'r Cynghorydd Dylan Fernley yn nathliadau Soest 1400, cynrychioli ein dinas ar ddirprwyaeth y DU i Lywodraeth Catalwnia, ymddangosiadau yn y cyfryngau pan gawsom ein labelu'n anghyfiawn fel tref glan môr waethaf y DU, diwrnod glanhau'r Maer a ddaeth â chynifer o'n cymunedau ynghyd â brwdfrydedd cyffredin dros ein dinas gyda chefnogaeth hael y Brodyr Hogan ar y diwrnod, cefnogi'r Wyl Haf wych a drefnwyd gan y cynghorwyr Williams Roberts a Pickavance.

Yna aeth ymlaen i ddiolch i'r Parchedig Ganon Tracy Jones, Eglwys Gadeiriol Deiniol Sant, Dr Martin Hanks Cyfarwyddwr y Ddinas a gweithwyr Cyngor Dinas Bangor am yr holl waith a wnaethant yn ystod ei dymor. Diolchodd hefyd i'w Ddirprwy Gyngorydd Hughes, Mr John Chamberlin a'r Cynghorwyr am yr holl waith caled, cefnogaeth ac ymroddiad a ddangoswyd iddynt yn ystod ei dymor.

01/25 ETHOL MAER AR GYFER 2025-26

Gofynnodd y Maer am gynigion ar gyfer ethol Maer i'r Flwyddyn Ddinesig oedd i ddod 2025-2026.

Cynigiwyd ac eiliwyd enw'r Cyngorydd Medwyn Hughes. Ni chynigiwyd unrhyw enwau eraill.

PENDERFYNWYD: penodi'r Cyngorydd Medwyn Hughes i swydd Maer Bangor am flwyddyn ddinesig 2025-2026.

02/2 5 ANERCHIAD GAN Y MAER NEWYDD

Rhoddodd y Maer newydd, y Cynghorydd Medwyn Hughes, anerchiad i'r Cyngor. Diolchodd y Cynghorydd Hughes i'r Cyngor am eu pleidlais i'w ethol yn Faer ar gyfer blwyddyn ddinesig 2025-2026.

Diolchodd y Cynghorydd Hughes i'r Cynghorydd Parry am ei holl waith diflino a wnaeth yn ystod y tymor, ac ychwanegodd ei bod yn bleser gweithio ochr yn ochr ag ef fel ei Ddirprwy.

Fel y Maer newydd, aeth y Cynghorydd Hughes ymlaen i esbonio newidiadau ym mholisiâu Cyngor y Ddinas yr hoffai eu gweld yn cael eu gweithredu. Aeth ymlaen hefyd i gydnabod y pwysau y mae'r Awdurdod Lleol yn eu hwynebu, toriadau mawr i Wasanaethau Anstatudol, a'i fod am weld Cyngor Dinas Bangor yn parhau i wella ar gynorthwyo gyda'r diffyg hwn fel bod dinasyddion y Ddinas yn gallu byw a gweithio mewn dinas sy'n parhau i fod yn fywiog, yn gynhwysol, ac yn gefnogol i bawb.

Atgoffodd y Cyngorwyr am y Cod Ymddygiad a dywedodd ei bod yn bwysig fod yr arferion da yn cael eu dilyn bob amser. Dywedodd y Cynghorydd Hughes y bydd yn sicrhau y cedwir at yr arferion hyn yn ystod ei dymor fel Maer.

03/25 YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cyngorwyr canlynol: Y Cynghorydd Dylan Fernley, Cyng. Simon Hibbs, Cyng. Huw Wyn Jones, Cyng. Michael Pattison, Cyng. Nigel Pickavance a'r Cyng. Gareth Roberts.

04/25 DATGANIAD O FUDDIANT ARIANNOL NEU GYSYLLTIAD PERSONOL

Dim.

05/24 ETHOL DIRPRWY FAER

Gwahoddodd y Maer enwebiadau ar gyfer penodi Dirprwy Faer. Cynigiwyd ac eiliwyd yr enw Cynghorydd Delyth Russell.

PENDERFYNWYD: Ethol y Cynghorydd Delyth Russell yn Ddirprwy Faer Dinas Bangor ar gyfer y Flwyddyn Ddinesig oedd i ddod, 2025/2026.

Urddwyd y Cynghorydd Russell â Chadwyn Swydd y Dirprwy Faer gan y Maer.

Yna darllenodd y Cynghorydd Russell y Datganiad Derbyn Swydd Dirprwy Faer Cyngor Dinas Bangor ym mhresenoldeb Cyfarwyddwr y Ddinas a'r Swyddog Priodol, a lofnododd y Datganiad.

PENDERFYNWYD: Cadarnhawyd bod y cofnodion yn gofnod cywir o'r cyfarfod.

07/25 CYTUNO AR AMSERLEN CYFARFODYDD AR GYFER Y CYNGOR NEWYDD

Roedd amserlen arfaethedig o gyfarfodydd ar gyfer y flwyddyn ddinesig oedd i ddod wedi'i dosbarthu ymlaen llaw cyn y cyfarfod hwn.

Yn wahanol i flynyddoedd bwrdeistrefol blaenorol, eleni, cynigiwyd newid gan y Maer-etholedig ar gyfer strwythur amserlen cyfarfodydd y cyngor. Cynigiwyd y dylai'r cyngor llawn gyfarfod bob dau fis yn lle bob mis.

Cynigiwyd hefyd, am y misoedd nad oes cyfarfodydd Cyngor llawn, y cynhelir cyfarfodydd pwyllgor.

PENDERFYNWYD: derbyn yr amserlen newydd ar gyfer cyfarfodydd a gofyn i Gyfarwyddwr y Ddinas gyhoeddi amserlen 2025-2026 i'r cyhoedd.

08/25 CYMERADWYO RHEOLAU SEFYDLOG Y CYNGOR

PENDERFYNWYD: Gofyn i'r Cyfarwyddwr Dinesig gynnwys yr eitem hon ar agenda cyfarfod nesaf y Cyngor llawn ar 9 Mehefin 2025.

09/25 CYMERADWYO RHEOLIADAU ARIANNOL NEWYDD

PENDERFYNWYD: Gofyn i'r Cyfarwyddwr Dinesig gynnwys yr eitem hon ar agenda cyfarfod nesaf y Cyngor llawn ar 9 Mehefin 2025.

10/25 CYMERADWYO STRWYTHUR PWYLLGORAU'R CYNGOR

PENDERFYNWYD: Gofyn i'r Cyfarwyddwr Dinesig gynnwys yr eitem hon ar agenda cyfarfod nesaf y Cyngor llawn ar 9 Mehefin 2025.

11/25 PENODI CYNRYCHIOLWYR I GYRFF ALLANOL

PENDERFYNWYD: Gofyn i'r Cyfarwyddwr Dinesig gynnwys yr eitem hon ar agenda cyfarfod nesaf y Cyngor llawn ar 9 Mehefin 2025.

Daeth y Cyfarfod i ben am 7.00 pm